# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 58(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(5 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Aelod ynghylch Diogelu Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru

(60 munud)

**NDM6249** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Dai Lloyd AC gyflwyno Bil i roi effaith i'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a gyflwynwyd ar 28 Chwefror 2017 o dan Reol Sefydlog 26.91A.

## 5 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

(60 munud)

**NDM6258** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2017.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 8 Mawrth 2017.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6257** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod Llywodraeth Cymru o dan arweiniad Llafur yn methu o ran pobl Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnwys ar ddiwedd y pwynt:

'a bod ei methiannau yn cael eu cymhlethu gan weithredoedd Llywodraeth Geidwadol y DU'.

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6256** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Dinas Fach, Cyfle Mawr Unigryw - Cais Tyddewi i fod yn Ddinas Ddiwylliant y DU

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2017